

DAVIES, RICHARD ('Tafolog'; 1830 - 1904), bardd a beirniad

Enw: Richard Davies

Ffugenw: Tafolog

Dyddiad geni: 1830

Dyddiad marw: 1904

Rhiant: Joanna Davies

Rhiant: Edward Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd a beirniad

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awdur: Thomas Parry

Mab ydoedd i Edward a Joanna Davies, ganwyd Mai 1830 yn y Dugoed Bach ym mhlwyf Mallwyd, ond pan oedd ef yn ifanc aeth ei deulu i fyw i Gwm Tafolog, ym mhlwyf Cemais, Sir Drefaldwyn. Cafodd ychydig fisoedd o ysgol, a bu'n gweithio yng Nghroesoswallt am ysbaid er mwyn dysgu Saesneg. Gartref ar ffarm ei dad y bu nes priodi yn 1865, a myned i fyw i'r Hirddol ger Penegoes. Bu farw ei wraig yn 1882. Ailbriododd yntau â Saesnes, ac aeth i fyw i'w chartref hi ger Worthen, Sir Amwythig.

Dechreuodd farddoni tua 1850, ac enillodd amryw wobrau mewn eisteddfodau lleol. Ysgrifennodd swm enfawr o farddoniaeth yn ystod ei oes, yn awdlau meithion ar destunau fel 'Tywyllwch,' 'Prydferthwch,' 'Rhagluniaeth,' 'Hunanaberth,' 'Awen,' a phryddestau ar 'Ymweliad y Doethion a Bethlehem,' 'Gwirionedd,' 'Tangnefedd,' 'Yr lachawdwriaeth,' 'Tragwyddoldeb.' Nid oes odid ddim gwerth parhaol yn ei farddoniaeth, a'r hyn a welir ynnddi yw'r agwedd bryddestol ac athronyddol ar y mudiad rhamantaidd. Y mae ei ysgrifau yn *Y Geninen* yn ddiddorol am y ceir ynnddynt safbwynt dilynwyr '[Islwyn](#)' a'r 'Bardd Newydd.'

Bu farw 5 Chwefror 1904.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

Richard Davies, Evan Davies (gol.), *Gwaith Tafolog* (Dolgellau 1909)

Richard Davies, [Barddoniaeth a Beirdd](#), *Y Geninen*, ii, 48

Richard Davies, [Barddoniaeth: ei natur a'i dyben](#), *Y Geninen*, xv, 170

Delweddau

LIGC: [Richard \(Tafolog\) Davies](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [123578392](#)

Wikidata: [Q20734269](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

